


Piler Eliseg

Enillodd Eliseg, brenin Powys, fuddugoliaeth dyngedfennol yn erbyn y Saeson yng nghanol yr wythfed ganrif, gan achub etifeddiaeth Powys. Gor-wŷr Eliseg, Cyngen, yr olaf o frenhinoedd Powys, a gododd y groes, rywbryd rhwng ei goroni yn 808 a'i farwolaeth yn 854. Piler Eliseg, ger Abaty Glyn y Groes, yw'r hyn sy'n weddill o'r groes. Mae'n un o'r hynaf a mwyaf pwysig yng Nghymru o henebion ag arysgrifen, daeth y dyffryn i gael ei alw'n ddiweddarach yn Pant y Groes a dyma sut y cafodd Abaty Glyn y Groes ei henw. Mae'n bosibl y cafod y piler ei ddymchwel a'i falu yn ystod rhyfel cartref 1642 – 1646. Hanner can mlynedd yn ddiweddarach, pan oedd yn mynd heibio ym 1696, cofnododd Edward Lhuyd yr arysgrifiad, oedd eisoes yn ddarniog ac sydd wedi diflannu'n llwyr erbyn heddiw.




Piler Eliseg heddiw.

Cynllyn o Bilar Eliseg yn 1773 gan Daines Barrington, cyn iddo gael ei adsefydlu, a'i adfywiad o'r cofeb (SAL, Minutes, XIII, 72–3, 20 May 1773).

<https://collections.sal.org.uk/sal.02.013.007>

Y Gofrestriad




+ Concenn mab Cattell, Cattell
 mab Brohcmail, Brohcmail mab
 Eliseg, Eliseg mab Guoillauc.
 Cynhefin felly, prif wyres Eliseg,
 a godiodd y maen hwn ar gyfer ei taid mawr
 Eliseg. + Eliseg a unoddodd
 etifeddiaeth Powys... fodd bynnag
 trwy rym ... o rym yn y Saesneg
 ... tir gyda'i gleddyf trwy dân (?).
 ... Pwy bynnag a ddarllen yn uchel y gorchymyn hwn a ysgrifennwyd â llaw...
 ... gad iddo roi bendith
 ...[ar enaid] Eliseg+ Mae'n Concenn
 ... gyda'i law
 ... ei frenhiniaeth ei hun o Bowys
 ... a pha un
 ?
 ...y mynydd
 ... brenhiniaeth
 ... Maximus o Brydain
 ...Pascent ... Maun Annan
 ... Britu hefyd [oedd] yn fab i Guarthigirn
 yr hwn y bendithiodd Germanus [a'r hwn]
 a gafodd Sevira iddo, merch Maximus y brenin,
 a laddodd brenin y Rhufeiniaid.
 +Cyflwynodd Conmarch y sgrifen hon yn lluniau
 ar gais ei frenin,
 Concenn. + Mae bendith yr Arglwydd ar Con-
 cenn a thropodd(?) ar ei deulu i gyd
 a thros holl dalaith Powys
 hyd....

Y'insgrifiad fel y cofnodwyd gan Edward Lhuyd o'r
 Pillar yn 1696 (chwith) a'r cyfieithiad o'r testun
 (uchod).

Ym 1779, a adnewyd y pilar sy'n weddill gan Trevor Lloyd o Dŷ Trevor, ac ar yr adeg honno, agorwyd y tumbwr ar gyfer yr oedd yn sefyll, gan ddatgelu skeleton dyn tal a darn mawr o arian arian. Cafodd y gweddillion eu hailgludo ond dywedodd un o'r dynion a ddarganfyddodd y corff fod y esgyrn "yn torri fel bisgedi ginger". Dywedodd hefyd fod y pennafur yn cael ei anfon i Dŷ Trevor, ond ei fod wedi ei fgoldio i'w gadw ac "yna fe'i depositerwyd yn ôl gyda'i esgyrn perthnasol."

Bedd Eliseg?

Mae'n bosibl mai'r sgerbwd 'enfawr' a ddarganfu Trefor Lloyd ym 1779 wrth gloddio o dan y pedestal oedd Eliseg, wedi'i gladdu mewn cist neu arch o gerrig gleision mawr. Heblaw am orchudd o gerrig afon, mae'r domen yn dyddio o'r Oes Efydd ac mae eirch 'cistiau hir' o'r chweched a'r seithfed ganrif Oed Crist wedi'u torri i feddrodau o'r Oes Efydd mewn mannau eraill yng Nghymru.



Cynllun o Piler Eliseg gan Moses Griffiths, ar ôl iddo gael ei ailddifro yn 1773 gan Trevor Lloyd.

Fodd bynnag, nid beddargraff yw'r arysgrifiad a gofnodwyd gan Edward Lhuyd a does yna ddim i awgrymu ei fod yn nodi bedd, mae'n edrych yn debycach mai cofeb i Eliseg yn unig yw'r piler a'i fod wedi'i godi ar feddrod o'r Oes Efydd i fod yn weladwy o bell ac, efallai, i gydio llinach frenhinol Powys yn symbolaidd gyda'r arwyr chwedlonol oedd yn cael eu cysylltu â beddrodau cyn hanesyddol yn y cyfnod canoloesol cynnar.

Mae ffurfioldeb cyfreithiol yr arysgrifiad yn awgrymu mai diben y gofeb oedd bod yn arwydd parhaol a hynod weladwy o feddiant tir a phrawf o berchnogaeth teyrnaswyr Powys mewn ystyr wleidyddol. Mae'r geiriad hefyd yn awgrymu y gallai fod wedi'i ysgrifennu i gael i'w adrodd yn uchel i dorf a fyddai'n gyfarwydd â'r hanesion am darddiad a buddugoliaethau teyrnaswyr Powys ar ffurf barddoniaeth lafar..

Pwy oedd y person 'enfawr'?

Os nad yw'r Piler yn cofnodi bedd Eliseg, mae'n codi'r cwestiwn - gweddillion pwy a ddadorchuddiodd Trefor Lloyd ym 1799? Mae'r hanes a gofnodwyd gan Simpson yn dweud eu bod wedi cloddio 'o dan y pedestal gwastad' ac wedi cyrraedd 'math o flwch neu arch'. Mae'n debyg, felly, fod yr arch neu'r gist a ddadorchuddiwyd gan Lloyd yn gorwedd o dan y pedestal ac felly mewn man nad yw wedi'i gloddio yn y cyfnod modern. Gallai darganfyddiad Lloyd o 'ddarn mawr o bisyn arian' (os mai dyna oedd) awgrymu fod y beddrod o'r Oes Efydd wedi'i ail ddefnyddio yn y cyfnod Rhufeinig a bod y darn arian wedi'i gladdu gyda'r corff..

Cloddio Modern ym Piler Eliseg



Piler Eliseg yn 1809.

Y Brif Garnedd

Carnedd gerrig hirgrwn, isel, tua 20m x 15m ar ei thraws oedd rhan gynharaf y twmwlws. Cafodd y garnedd ei hadeiladu'n union ar hen wyneb y tir ar ychydig o godiad tir ar wedi'i ffurfio gan dwmpath hir naturiol ar lethr teras afon hynafol. Roedd ymyl y garnedd i'w gweld yn glir, roedd wedi'i ffurfio o ddau wahanol fath o gerrig, slabiau mawr o lechen gyda chlogfeini crwn cyferbyniol o ithfaen. Gellir disgrifio'r garnedd yn fras fel carnedd llwyfan gyda cherb yn ddyddio, mae'n debyg o tua 2000 mlynedd cyn Crist.



Y gist gladdu yn y brif garnedd.

Rhwng 2010 a 2012 bu Prifysgolion Bangor a Chaer yn cloddio'r twmwlws nifer o weithiau. Diben y cloddio oedd:

- Datrys dilyniant stratigraffig adeiladu'r gofgolofn.
- Sefydlu dilyniant cronolegol o ddefnydd y gofgolofn.
- Cloddio a chofnodi'r dystiolaeth a allai fod ar gael o amlosgi, claddu / cistiau.



Golwg gyffredinol ar y cloddiau yn 2012.

Y tu fewn i'r garnedd darganfuwyd cist hirsgwar fechan. Roedd yn mesur 0.4m x 0.3m ac yn cynnwys pedwar slab a oedd yn ffurfio blwch carreg bychan. Un slab sengl oedd sylfaen y gist. Yn amlwg, roedd gwaith cloddio o'r blaen wedi amharu ar y gist. Ar waelod y gist roedd ychydig o esgyrn wedi'u losgi sy'n cadarnhau mai arch oedd y gist yn wreiddiol.

Yr Ail Garnedd

Yn ail ran adeiladu'r garnedd, ychwanegwyd at a chynyddu uwchder y garnedd lwyfan wreiddiol. Slabiau cerrig llaid onglog yw'r rhan fwyaf o'r ail ran. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau gyfnod adeiladu i'w gweld yn glir. Er fod y ddau gyfnod yn ymddangos yn dyddio o'r Oes Efydd cynnar, gallai'n hawdd fod cannoedd o flynyddoedd rhwng rhan 1 a rhan 2.



Cist fawr, yn gynnar o'r Oes Efydd.

Yn union y tu ôl i'r cerb, gwelwyd cist arall. Roedd yn 0.33m x 0.4m ac wedi'i ffurfio o bedwar slab i wneud blwch. Un slab sengl oedd sylfaen y gist ac roedd yn cael ei selio gan faen capan mawr. Wrth godi'r maen capan daeth yn amlwg fod cynnwys gwreiddiol y gist yn dal yno.

Cafwyd dros 7kg o esgyrn wedi llosgi o'r un gist hon, sef gweddillion nifer o unigolion. Darganfuwyd pin asgwrn a chylllell fflint hefyd. Cafodd y gist ei gosod yn y garnedd drwy dynnu darn o'r cerb ac mae'n debyg ei bod yn dyddio i'r Oes Efydd cynnar.

Darganfuwyd dwy gist claddu arall yng ngharnedd rhan 2. Daeth cist fawr, y tybiwyd yn wreiddiol ei fod mewn bedd o'r canol oesoedd cynnar, i'r golwg 2011. Wrth ei gloddio, sylweddolwyd mai cist fawr o'r Oes Efydd Cynnar oedd hon, o bedwar slab mawr o garreg wedi'u gosod i ffurfio blwch carreg hirsgwâr. Un slab sengl oedd sylfaen y gist ac roedd yn cael ei selio gan faen capan mawr. Roedd y gist yn mesur 0.5m x 0.3m ac yn 0.43m o ddyfnder. Ni welwyd esgyrn wedi llosgi ynddi nac unrhyw beth arall.



Canfuwyd Cist 3 y tu ôl i'r cyrb.



Cylllell fflint a phin esgyrn a fydd yn cael eu cael yn Cist 3.

Ailffurfio hynafiaethol ar y garnedd

Yr adeiladwaith diweddaraf ar y garnedd yw'r cap o gerrig afon crwn, llwydlas. Mae'r cap ar y garnedd yn wahanol iawn i'r deunydd oddi tano, sy'n flociau onglog o gerrig mwd yn dyddio'n ôl, mae'n debyg, i pan gafodd y garnedd ei ailffurfio adeg codi'r piler ym 1779.



Golygfa aderyn o'r cloddiau.

Mae gwybodaeth fanwl am biler Eliseg ar gael yn:-

Nancy Edwards (2009). Rethinking the pillar of Eliseg. The Antiquaries Journal, 89, pp 143-177

Dolen i'r erthygl hon: http://journals.cambridge.org/abstract_S0003581509000018

Am wybodaeth am y cloddiadau modern, chwiliwch am Prosiect Eliseg.